

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>15 Gorffennaf 2021</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	<b>Bobby Feeley / Huw Hilditch-Roberts / Nicola Stubbins</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Ann Lloyd, Prif Reolwr, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adroddiadau Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 – 2020 a 2020 - 2021</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1. Rhaid i Gyfarwyddwr Statudol pob Gwasanaeth Cymdeithasol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu safbwynt ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a gwelliannau i'w blaenoriaethu.
  
- 1.2. Mae adroddiadau blynyddol drafft 2019 – 2020 a 2020 – 2021 yn amgaaedig yn Atodiad 1 a 2. Diben yr adroddiadau yw rhoi darlun teg i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1. I alluogi'r Aelodau i graffu ar yr adroddiadau blynyddol drafft cyn iddynt gael eu cyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1. Bod yr Aelodau yn ystyried a yw'r adroddiadau'n rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2019 – 2020 ac yn 2020 - 2021

3.2 Bod yr Aelodau yn ystyried a yw'r adroddiad yn codi unrhyw faterion/pryderon perfformiad sydd angen eu harchwilio ymhellach.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. At ei gilydd, dengys y ddau adroddiad bod Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd da ar gyfer plant, oedolion a gofalwyr, a'n bod wedi perfformio'n rhagorol mewn meysydd sy'n bwysig i'n dinasyddion ar adeg pan roeddem hefyd yn delio gyda'r pandemig Coronafeirws.

### **Adroddiad Blynyddol 2019 - 2020**

4.2. Ym Mawrth 2020 bu i Lywodraeth Cymru atal y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol oherwydd pandemig Covid 19. Fodd bynnag, maent bellach wedi dweud bod angen i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyhoeddi eu hadroddiadau.

4.3. Yn ystod 2019 / 2020 bu i ni barhau i wneud cynnydd da wrth drawsnewid ein gwasanaethau cymdeithasol ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Roedd hyn yn ochr yn ochr â phwysau ariannol parhaus oherwydd llai o gyllid sector cyhoeddus a phwysau cost cynyddol yn ogystal â galw cynyddol am wasanaethau.

### **4.4. Uchafbwyntiau a Chyflawniadau Allweddol yn cynnwys:-**

- Cyflwyno cardiau rhag-dâl i ddinasyddion sy'n cael Taliadau Uniongyrchol
- Cryfhau Gwasanaethau Ffiniau Gofal i ddarparu ymyraethau dwys i'r teuluoedd hynny sydd â phroblemau diogelu a deinameg teuluol cymhleth.
- Datblygu Timau Adnoddau Cymunedol yn golygu integreiddio yn y Rhyl a Rhuthun a gwnaed cynnydd i sicrhau llety yn Ninbych a Phrestatyn.
- O fewn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl gwelwyd datblygiad y Bartneriaeth Ddysgu
- Yn y gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith dechreuwyd gweithredu canfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd
- Cafwyd cynnydd o 23% yn nifer yr ymholiadau Amddiffyn Oedolion a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol
- Cyhoeddwyd y prosiect Symud ag Urddas a chyflwynwyd hyfforddiant staff

- O fewn y Gwasanaeth Anableddau Cymhleth, mae'r tîm Hwb Siarad bellach yn cydweithio i sicrhau mwy o wybodaeth, cyngor a chymorth, cyfeirio neu ddyrannu a chwblhau gwaith byrdymor mewn modd amserol.
- Lluniwyd cynlluniau ar gyfer pob un o'r plant a nodwyd fel rhai agored i niwed i gael cyswllt dros y cyfnod clo a arweiniodd at gau ysgolion, gan ddefnyddio staff Addysg a Gwasanaethau Plant a staff ysgolion.
- Recriwtio 4 asesydd gofalwr – un o bob Tîm Adnoddau Cymunedol
- Cafodd y Prosiect Cyngor Deall Dementia gydnabyddiaeth gan Gymdeithas Alzheimer's

**4.5. Meysydd gwaith sydd angen i ni ganolbwyntio arnynt, wrth symud i 2020 - 2021 byddwn yn gweithio ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys:-**

- Sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi gofalwyr ar gael yn ddigidol yn ogystal â thrwy sianeli eraill
- Datblygu Gwasanaeth a Llwybr Blynyddoedd Cynnar integredig newydd
- Cyflwyno tîm aml-asiantaeth peripatetig ledled Sir Ddinbych a Chonwy i weithio gyda theuluoedd sydd mewn perygl o orfod rhoi eu plant mewn gofal preswyl hirdymor
- Sicrhau bod diogelu wedi ei wedi'i sefydlu yn ymarfer pawb, sy'n cynnwys gwersi a ddysgwyd o archwiliadau Diogelu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
- Gweithredu'r Rhaglen Symud ag Urddas
- Adolygu darpariaeth gofal plant a seibiant i rieni sydd â phlant ag anghenion ychwanegol a chymhleth.
- Datblygu Gwasanaeth Ffiniau Gofal gwell ac estynedig, yn canolbwyntio ar gefnogi plant i aros yn y cartref neu ddychwelyd i'r cartref fel rhan o'r strategaeth i ostwng nifer y Plant Dan Ofal
- Parhau i ddatblygu'r gwaith ar Dechnolegau Cynorthwyol

**Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021**

- 4.6. Trwy gydol 2020 / 2021 y canolbwynt oedd sicrhau ein bod yn cadw ein dinasyddion yn ddiogel a'u cefnogi trwy gyfnodau clo Covid 19 ac oedwyd nifer o'n cynlluniau. Fodd bynnag, roedd y pandemig yn golygu bod rhaid i ni fod yn greadigol ac yn arloesol i fodloni anghenion ein dinasyddion ac wedi caniatáu i ni gyflymu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol a ddigidol. Yn ystod eleni mae

staff wedi gweithio'n hynod o galed ac roeddent dan bwysau mawr i ddarparu gwasanaethau i'n dinasyddion, yn arbennig o fewn ein lleoliadau gofal.

#### **4.7. Uchafbwyntiau a Chyflawniadau Allweddol yn 2020 – 2021 yn cynnwys:-**

- Recriwtio gwirfoddolwyr i gefnogi'r dinasyddion hynny oedd ag anghenion cymorth lefel is yn ystod y pandemig
- Creu ein Tîm Estyn Allan Cyn Ysgol a Thîm o amgylch y Lleoliad
- Gwasanaeth Anabledd Cymhleth yn defnyddio amrywiol ddarnau o dechnoleg gynorthwyol a digidol i ostwng arwahanrwydd cymdeithasol a chadw dinasyddion oedd ag anableddau dysgu mewn cysylltiad â'n gwasanaethau (er ei fod yn rhithiol).
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn llawer mwy o ran o Dimau Adnoddau Cymunedol ledled Sir Ddinbych trwy gyfarfodydd rhithiol.
- Cydweithio agos rhwng ystod o bartneriaid i sicrhau bod plant agored i niwed yn cael eu cefnogi pan roedd yr ysgolion ar gau yn ystod cyfnod clo Covid 19
- Atgyfeiriadau Diogelu o fewn y Gwasanaethau Plant wedi parhau i'w trin o fewn 24 awr er gwaethaf heriau parhaus Covid 19
- Y defnydd o dechnoleg gynorthwyol o fewn ein lleoliadau gofal megis Paro Seal a Pepper Robotics
- Sefydlwyd tîm aml-asiantaeth Bwthyn y Ddôl ac mae'r gwaith yn parhau ar ddatblygu'r ganolfan asesu.
- Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol dementia wedi eu sefydlu ym mhob Tîm Adnoddau Cymunedol
- Sefydlwyd systemau arloesol megis Gwthio i Siarad a Phontio'r Bwlch ar gyfer Gofalwyr

#### **4.8. Meysydd gwaith y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt yn 2021 – 2022 yw:**

- Datblygwyd y Rhaglen Symud ag Urddas eleni, ond nid cymaint ag y cynlluniwyd, a bydd hyn yn creu momentwm yn y flwyddyn sydd i ddod.
- Adolygu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau amgen, rhannu gwybodaeth o'r prosiect Microfentrau/Catalydd Cymunedol, gyda gofalwyr a sefydliadau gofalwyr
- Ymuno â Rhaglen Drawsnewid Integreiddio Cynnar Llywodraeth Cymru fel awdurdod braenaru, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

- Sicrhau gweithrediad effeithiol Mesurau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cynnal ac ehangu'r Prosiect Gwirfoddoli llwyddiannus a sefydlwyd mewn ymateb i Covid 19. Ymwreiddio gwersi a ddysgwyd a phrosesau a fabwysiadwyd i weithio gyda gwirfoddolwyr i wella ac ymestyn gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Datblygu ein defnydd o dechnolegau cynorthwyol ymhellach i greu annibyniaeth
- Parhau i weithio i ddatblygu gwasanaethau i ofalwyr
- Parhau gyda datblygiad Bwthyn y Ddôl a'r dull amlddisgyblaethol gyda phlant ar ffin gofal
- Gweithio gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar recriwtio ar gyfer gofal a llwybrau gyrfa i bobl ifanc i ofal cymdeithasol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud yn benodol â'n cyfraniad at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid yw cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol yn costio unrhyw beth ac eithrio amser swyddog, ac nid yw'n effeithio ar wasanaethau eraill. Bydd cynlluniau a chymau gweithredu'r dyfodol a nodwyd ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaethau Addysg a Phlant o fewn yr adroddiad yn cael eu cyflawni o fewn cyllidebau presennol, neu trwy gyllid partneriaeth, megis y Gronfa Gofal Integredig.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiadau blynyddol eu hunain gan eu bod yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad ac nid

yw cyhoeddi'r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Les mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau'r dyfodol neu ddatblygiad gwasanaethau a soniwyd amdanynt yn yr adroddiadau blynyddol hyn, pan fo angen.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynglŷn â'n gwasanaethau yn ffurfio rhan o'n system sicrwydd ansawdd presennol ac o'r herwydd, wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad yr adroddiadau blynyddol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiadau blynyddol gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae cofrestr risg manwl ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaethau Addysg a Phlant. Gan fod yr adroddiadau hyn am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, mae unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn (ac unrhyw gamau i liniaru a'u rheoli) yn cael eu dal yn y cofrestri risg gwasanaeth.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Mae Canllawiau Statudol (gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol) yn cael eu cyhoeddi o fewn y Cod Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

11.2. Nodir y pwerau craffu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 tra bod Adran 7.4.2 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi swyddogaeth Craffu mewn perthynas â monitro perfformiad ac amcanion polisi.